# Pwylgor y Ty

## Cofnodion

### Dyddiad: 18 Ionawr 2007
### Amser: 2.00pm
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, Bae Caerdydd

**Aelodau'n bresennol:**

William Graham, AC Ceidwadwyr (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, AC Llafur
Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol
Janice Gregory, AC Llafur
Owen John Thomas, AC Plaid Cymru
Y Llywydd (yn bresennol)

**Swyddogion yn bresennol:**

Jon Shortridge, yr Ysgrifennydd Parhaol
Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad
Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad
Adrian Crompton, Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau
Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol
Steven O'Donoghue, Rheolwr Cyllid Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad
Nerys Evans, Rheoli Cyfleusterau

**Yr Ysgrifenyddiaeth:**

John Grimes, Clerc Pwyllgor y Ty
Gareth Brydon, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty

**Ymddiheuriadau:**

John Marek, AC Cymru Ymlaen
Jane Hutt, AC Llafur

**Yn bresennol:**

David Melding, AC (Eitem 2.1)

**Yn arsylwi:**

Eve Pennant-Jones, Gweithredwr Seneddol ar gyfer y Dirprwy Lywydd

| | |
|---|---|
| | **Sylwadau Agoriadol** |
| | |
| | Croesawodd y Cadeirydd David Melding, Cadeirydd yr Is-grwp Arlwyo, i'r cyfarfod ynghyd â Jon Shortridge a oedd yn bresennol fel Swyddog Cyfrifo. |
| | |
| **1** | **Cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r camau sy'n codi ohonynt** |
| | |
| 1.1 | Nododd yr Aelodau fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2006 wedi'u cyhoeddi ar 16 Ionawr 2007. |
| | |
| 1.2 | Camau sy'n codi o gyfarfodydd blaenorol HC(2)-01-07(p1) |
| | |
| | Parcio Ceir<br><br>Gofynnodd Peter Black am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cyfleusterau parcio ceir.<br><br>Dywedodd Dianne Bevan y byddai maes parcio Queensgate yn parhau ar agor i bawb sydd â cherdyn staff, yn cynnwys Staff Cymorth Aelodau. Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaeth bws am ddim ar gael erbyn hyn. Dywedodd fod nodyn wedi'i ddosbarthu i bawb ac y bydd yn sicrhau bod y neges yn cynnwys Staff Cymorth Aelodau.<br><br>Cam i'w gymryd: Dianne Bevan<br><br>Ystafelloedd Pwyllgora<br><br>Dywedodd Dianne Bevan y bydd y prif ystafelloedd pwyllgora ym Mharc Cathays ar gau am fis o 19 Chwefror ymlaen fel bod modd dechrau'r gwaith adnewyddu. Cytunodd gyda'r Ysgrifennydd Parhaol y gall staff Llywodraeth Cynulliad Cymru ddefnyddio'r ystafelloedd cyfarfod yn Swyddfeydd y Cynulliad ar yr amod mai Aelodau'r Cynulliad fydd yn cael blaenoriaeth. |

| | |
|---|---|
| **2** | **Eitemau i'w trafod** |
| 2.1 | Achos Busnes ar gyfer Addasu'r Mannau Arlwyo HC(2)-01-07(p2) |
| | Ystyriodd y Pwyllgor bapur ar y gwaith adnewyddu ac addasu arfaethedig i fwyty'r staff a Pharlwr Te yr Aelodau.<br><br>Roedd David Melding, AC yn bresennol ar gyfer yr eitem hon. Amlinellodd y cynigion yn y papur. Hysbyswyd yr Aelodau fod rhywfaint o'r gwaith, fel adnewyddu'r prif fwyty a'r ardaloedd gweini yn hanfodol a bod darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer hyn yn y flwyddyn ariannol bresennol. Roedd y cynigion eraill, yn cynnwys gwaith ar Barlwr Te yr Aelodau a defnyddio Ystafell Bwyllgora A a B, yn ddymunol ond nid yw'n bosibl dechrau ar yr holl waith tan ar ôl diwedd mis Mawrth.<br><br>Trafododd yr Aelodau'r cynigion a chytunwyd y dylid cyflawni'r gwaith hanfodol i'r bwyty yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Cytunwyd hefyd y dylai swyddogion ystyried y ffordd orau o wneud y gwaith fesul cam ar sail yr arian sydd wedi'i neilltuo yn y gyllideb. Cytunodd Aelodau hefyd na fydd modd defnyddio'r ystafelloedd ciniawa preifat os caiff Ystafell Gynadledda A a B eu defnyddio.<br><br>Dywedodd David Melding y bydd yr Is-grwp Arlwyo'n nodi beth y gellir ei wneud eleni ac yn cyfarwyddo'r gwaith prosiect. Ychwanegodd ei fod yn bosibl y byddant yn dod i'r casgliad na fydd yn bosibl dechrau unrhyw waith nad yw'n hanfodol y flwyddyn ariannol hon.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i Nerys Evans baratoi papur ar y defnydd arall posibl o'r ystafelloedd ciniawa preifat.<br><br>Cam i'w gymryd: Nerys Evans |
| 2.2 | Comisiwn y Cynulliad: Cynllun Iaith Gymraeg HC(2)-01-07(p3)<br><br>Ystyriodd Pwyllgor y Ty bapur ar Gynllun Iaith Gymraeg a baratowyd ar gyfer y Trydydd Cynulliad. Ystyriodd y Cynllun drafft hefyd yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor ar yr argymhelliad yn y papur a chymeradwyodd y camau a gymerir i gynhyrchu Cynllun Iaith Gymraeg. |

| | |
|---|---|
| 2.3 | Rheoli Asedau – Meysydd Blaenoriaeth HC(2)-01-07(p4)<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor bapur ar y materion yn ymwneud â rheoli asedau y cytunwyd arnynt gan y Comisiwn Cysgodol fel blaenoriaethau ar gyfer mis Mai 2006.<br><br>Gofynnodd y papur i'r Aelodau ystyried opsiynau ar gyfer lleoli cyfleusterau addysg ac ymwelwyr ym Mae Caerdydd yn y dyfodol a sut i ddefnyddio Glanfa'r Cynulliad, neu rannau ohoni, at ddibenion eraill, ei hyrwyddo fel cyrchfan yn ei rhinwedd ei hun ac fel adeilad y gall y cyhoedd ei ddefnyddio. Ceisiodd gyfarwyddyd hefyd ynghylch Canolfan Bae Colwyn er mwyn gallu cynnal rhagor o drafodaethau gyda'r Llywodraeth.<br><br>Bu'r Aelodau'n trafod argymhellion y Comisiwn Cysgodol y dylid symud y ganolfan addysg ac ymwelwyr i'r Senedd a Swyddfa'r Cynulliad, ynghyd â siop y Cynulliad. Dywedodd Gwen Parry ei bod yn datblygu cynigion i ddefnyddio'r hen Siambr a rhan o'r hen neuadd.<br><br>Cytunodd yr Aelodau y dylid cyflwyno papur arall i'r Pwyllgor ar gynigion ar gyfer y ganolfan addysg ac ymwelwyr, y defnydd a wneir o'r Lanfa a Chanolfan Bae Colwyn.<br><br>Cam i'w gymryd: Gwen Parry |
| 2.4 | Dirprwyo Swyddogaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i Bwyllgor y Ty HC(2)-01-07 (p5) |
| | Gofynnwyd i Bwyllgor y Ty ystyried cymeradwyo 'mewn egwyddor' y penderfyniad i ddirprwyo dwy swyddogaeth iddo:<br><br>a) Mae Atodlen 2, paragraff 5 a 6 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn grymuso'r Cynulliad i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r system etholiadol a'r llywodraeth ddatganoledig, yn cynnwys drwy roi grantiau a/neu rhoi cymorth ariannol i'r Comisiwn Etholiadol. O dan paragraff 18 o Atodlen 11, gall y Cynulliad arfer y swyddogaeth hon tan ddiwedd y cyfnod cychwynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.<br><br>b) Mae Atodlen 11, paragraff 43(10) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r Cynulliad cyn gwneud y Gorchymyn sy'n trosglwyddo staff i Gomisiwn y Cynulliad. |

| | |
|---|---|
| | Cytunodd yr Aelodau mewn egwyddor y dylid dirprwyo'r ddwy swyddogaeth iddo ac i'r newid yn Rheol Sefydlog 18. |
| 2.5 | Trosglwyddiadau yng Nghyllideb 2006/07 HC(2)-01-07(p6)<br><br>Ystyriodd Aelodau bapur yn nodi'r cynigion ar gyfer trosglwyddo symiau yng nghyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar gyfer 2006/7.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor ar y cynigion fel y nodwyd yn y papur. |
| **3** | **Eitemau i'w nodi** |
| 3.1 | Adroddiad Misol Adnoddau Dynol HC(2)-01-07(p7)<br><br>Nododd yr Aelodau yr adroddiad. |
| 3.2 | Dangosyddion yn erbyn Targedau HC(2)-01-07(p8)<br><br>Dywedodd Diane Bevan fod manylder yr adroddiadau dangosyddion yn cael ei adolygu at ddibenion adrodd yn ôl i Gomisiwn y Cynulliad yn y dyfodol, a gofynnodd am unrhyw awgrymiadau gan Aelodau o ran y dangosyddion mwyaf defnyddiol yn eu barn hwy.<br><br>Nododd yr Aelodau yr adroddiad. |
| 3.3 | Adroddiad Cyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad HC(2)-01-07(p9)<br><br>Nododd yr Aelodau yr adroddiad. |
| 3.4 | Mynediad at Wybodaeth HC(2)-08-04(p6)<br><br>Nododd yr Aelodau yr adroddiad. |
| 3.5 | Gweithgareddau Cysylltiadau Tramor ac Allanol HC(2)-01-07(p11)<br><br>Nododd yr Aelodau yr adroddiad. |
| **4** | **Unrhyw Fater Arall**<br><br>Ystafell Briffio'r Cyfryngau<br><br>Gofynnodd Lorraine Barrett am eglurhad o sut i archebu ystafell briffio'r cyfryngau. Dywedodd Gwen Parry fod angen canllawiau ar hyn a dywedodd y byddai'n paratoi papur |

ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Cam i'w gymryd: Gwen Parry/Nerys Evans

Mynediad i'r Siambr

Cyfeiriodd Janice Gregory ar ddigwyddiad diweddar pan aeth Aelod â grwp o blant o amgylch y Siambr yn groes i'r canllawiau diweddar ar fynediad i ymwelwyr i ardaloedd cyfyngedig y Senedd.

Cytunodd yr Aelodau y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Aelodau'n eu hatgoffa o'r canllawiau, gan eu rhybuddio o ganlyniadau posibl torri rheolau yn y dyfodol.

Cam i'w gymryd: Clerc y Pwyllgor

Mynediad at Aelodau yn y Cwrt

Gofynnodd Aelodau a fyddai modd rhoi gwybod i newyddiadurwr beth yw'r protocol cywir i'w ddilyn wrth fynd i mewn i'r Cwrt.

Cam i'w gymryd: Clerc y Pwyllgor

Gweithredu Diwydiannol

Cyflwynodd Dianne Bevan bapur ar weithredu diwydiannol posibl gan aelodau o Undeb PCS ddydd Mercher, 31 Ionawr. Dywedodd er nad oes gan yr Undeb ddadl â'r Cynulliad ym Mae Caerdydd, fod y streic arfaethedig yn rhan o weithredu cenedlaethol. Mae'n debygol y bydd staff allweddol yn cymryd rhan yn y gweithredu diwydiannol, os bydd yn mynd yn ei flaen, a gall hyn arwain at ddiffyg busnes ar y diwrnod hwnnw yn y Cynulliad.

Bu Aelodau'n trafod y gweithredu diwydiannol arfaethedig a'r mesurau wrth gefn posibl y gellir eu cymryd i osgoi colli busnes yr wythnos honno. Dywedodd y Llywydd nad oedd am i drafodaeth ddemocrataidd gael ei hatal yn y modd hwn a gofynnodd i Diane Bevan gysylltu â Jeff Evans, PCS Cymru i weld a oes modd eithrio'r Cynulliad yn yr achos hwn.

Cam i'w gymryd: Dianne Bevan

Ar ôl trafodaeth arall, cytunodd Aelodau, os bydd y streic yn mynd yn ei flaen ar 31 Ionawr ac yn dibynnu ar ganlyniad y trafodaethau â Jeff Evans, yn eu barn hwy ni ellir cynnal cyfarfodydd Pwyllgor na chyfarfod llawn ar y diwrnod hwnnw oherwydd diffyg cyfleusterau. Yn hytrach, cytunodd y Pwyllgor y gall ddarparu cyfleusterau ar gyfer cyfarfodydd byrrach fore dydd Iau, 1 Chwefror (yn dechrau am 9.00am) gyda sesiwn cyfarfod llawn byrrach yn dilyn.

| | |
|---|---|
| | Cyfarfod Pwyllgor y Ty ym Mis Mawrth<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i Aelodau ystyried newid dyddiad y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 1 Mawrth i 15 Mawrth gan mai Dydd Gwyl Dewi ydyw, ac mae'n debyg y bydd gan Aelodau ymrwymiadau eraill y diwrnod hwnnw. Caiff 1 Mawrth ei neilltuo ar gyfer busnes brys yn unig.<br><br>Cytunodd Aelodau i drefnu'r cyfarfod ar gyfer 15 Mawrth. |
| | |
| | Dyddiad y cyfarfod nesaf: 8 Chwefror 2007<br><br>Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty |